



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Trefnant  
Henllan Road  
Trefnant  
Ger Dinbych  
Sir Ddinbych  
LL16 5UF**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2013

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn gwasanaethu pentref Trefnant a'r cylch yn sir Ddinbych. Mae 76 o ddisgyblion rhwng tair ac 11 oed yn yr ysgol, yn cynnwys 12 o ddisgyblion yn y feithrinfa. Mae pedwar dosbarth yn yr ysgol. Mae gan ryw 10% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Er bod y ffigur hwn wedi codi'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n parhau'n is na'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Daw bron pob un o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg yn brif iaith, ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn siarad Cymraeg fel mamiaith. Gwyn Prydeinig gan mwyaf yw ethnigrwydd y disgyblion; mae'r gweddill o ethnigrwydd cymysg yn bennaf. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 19% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr un disgybl ddatganiad o angen addysgol arbennig, ac nid oes unrhyw ddisgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Ni fu unrhyw waharddiadau disgyblion cyfnod penodol yn ystod y 12 mis diwethaf.

Yn 2007 yr arolygwyd yr ysgol ddiwethaf. Roedd y pennaeth presennol yn ei swydd ar y pryd.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn 2013-2014 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,750 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Ddinbych yw £8,594 a'r lleiafswm yw £3,159. Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn yr 19eg safle o'r 48 o ysgolion cynradd yn Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllidieb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Da</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn dda oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol ac yn cyflawni safonau da o ran dysgu a lles;
- mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel;
- mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru;
- ceir perthnasoedd gweithio pwrpasol rhwng y staff a'r disgyblion, ac mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safonau dysgu a lles disgyblion;
- cynigir ystod eang o brofiadau dysgu heriol a diddorol i ddisgyblion o bob oed a gallu; ac
- mae ansawdd cyffredinol yr addysgu yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da.

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth yn cynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol;
- mae prosesau effeithiol ar waith ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yr ysgol;
- rhoddir ffocws cadarn ar wella safonau llythrennedd a rhifedd;
- mae'r ysgol yn cydweithredu'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chyflawniad disgyblion; ac
- mae'r staff yn dangos ymrwymiad clir i wella'u harfer broffesiynol.

## Argymhellion

- A1 Codi safonau mewn Cymraeg
- A2 Herio disgyblion mwy galluog yn gyson
- A3 Sicrhau bod marcio gwaith disgyblion yn ddigon trylwyr bob amser
- A4 Rhoi trefniadau clir ar waith i gyflawni dyletswyddau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth
- A5 Codi lefel yr her a ddarperir gan y corff llywodraethol

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Trefnant yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

#### Safonau: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth sydd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer eu hoedran. At ei gilydd, gwnânt gynnydd da erbyn diwedd cyfnod allweddol 2.

Mae medrau siarad a gwrando cadarn gan lawer o ddisgyblion. Siaradant yn hyderus am brofiadau dysgu neu mewn ymateb i gwestiynau athrawon, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o eirfa yn aml.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'u medrau darllen. Yn aml, mae ganddynt ystod addas o strategaethau i'w helpu i ddarllen er pleser neu ddealltwriaeth. Mae ychydig o ddarllenwyr mwy galluog yn dweud pwy yw eu hoff awduron a'r mathau o lyfrau sydd orau ganddynt. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus gyda rhuglder a dealltwriaeth dda. Mae disgyblion mwy galluog yn dangos medrau darllen lefel uwch da fel llunio casgliad.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu'u medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig da sy'n dangos ymwybyddiaeth ddatblygol o sillafu, gramadeg a genre, er enghraifft, mewn ymateb i waith ar chwedlau traddodiadol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, ysgrifennant yn bwrpasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae disgyblion mwy galluog yn cynhyrchu darnau o waith ysgrifenedig estynedig sy'n cynnwys amrywiaeth o eirfa llawn dychymyg yn aml. Fel arfer, caiff y gwaith ei drefnu yn dda, ac mae'r cynnwys yn ennyn diddordeb y darllenydd yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau mathemategol yn effeithiol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn dysgu medrau rhifedd yn gynyddol a defnyddiant y medrau hyn yn gyson ac yn dda ar draws ystod o bynciau o fewn y cwricwlwm.

Cynnydd annigonol a wneir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion wrth ddatblygu'u medrau Cymraeg.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion y mae angen cymorth ychwanegol neu her ychwanegol arnynt yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini sy'n newydd i'r Saesneg yn cyflawni gystal â disgyblion eraill.

Oherwydd y nifer amrywiol ac weithiau'r nifer fach o ddisgyblion ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol, rhaid trin canlyniadau asesiadau disgyblion yn ofalus gan y gall canlyniadau un disgybl gael effaith sylweddol ar berfformiad yr ysgol.

Yn 2013, roedd cyflawniadau disgyblion y Cyfnod Sylfaen ar y deilliant 5 disgwylidig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad mathemategol ychydig islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, ac roedd yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ledled Cymru. Mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, roedd cyflawniadau disgyblion yr un peth â chyfartaledd y teulu, ac roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Ar y deilliant 6 uwch na'r disgwyl, fe wnaeth perfformiad disgyblion mwy galluog roi'r ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. Fodd bynnag, fe wnaeth perfformiad disgyblion mewn datblygiad mathemategol osod yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg.

O gymharu â lefelau perfformiad cymharol yn nheulu'r ysgol, mae perfformiad cyfnod allweddol 2 wedi bod yn amrywiol dros y tair blynedd diwethaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwylidig a'r lefel 5 uwch. Mae cyfran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwylidig neu uwch, ym mhob un o'r tri phwnc o'u cyfuno, yn agos iawn at gyfartaledd y teulu o ysgolion fel arfer, ac mae wedi gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg ledled Cymru mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Ar y lefel 6 uwch na'r disgwyl, mae perfformiad yr ysgol fel arfer yn ei rhoi yn y 50% is o ysgolion tebyg ar draws yr holl bynciau.

Yn y blynyddoedd diwethaf, yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad bechgyn wedi bod yn well na pherfformiad merched yn gyffredinol.

### **Lles: Da**

Mae'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac mae ganddynt agweddau da at ddysgu. Teimlant yn ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hyderus y bydd staff yn delio'n gyflym ag unrhyw bryderon neu ddigwyddiadau sy'n digwydd. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r angen i fwyta ac yfed yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithredu'n dda â'i gilydd yn eu gwersi ac yn ystod gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion. Maent yn datblygu dealltwriaeth addas o'u cryfderau a'u gwendidau drwy ymwneud yn gynyddol ag asesu, cytuno ar feini prawf llwyddo a gosod targedau personol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae safonau ymddygiad yn uchel. Mae disgyblion o bob oedran yn chwarae'n hapus gyda'i gilydd yn ystod amser egwyl ac amser cinio. Dangosant barch, cwrteisi ac ystyriaeth at ei gilydd ac oedolion.

Mae ffigurau presenoldeb dros y pedair blynedd diwethaf yn gyson uwch na chyfartaledd y teulu a chyfartaledd Cymru. Roedd y ffigurau ar gyfer 2011-2012 ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion â hawl debyg i gael prydau ysgol am ddim. Yn sgil ffigurau presenoldeb dros y ddwy flynedd flaenorol, roedd yr ysgol yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae'r cyngor ysgol a'r clwb eco yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at fywyd yr ysgol. Mae'r aelodau yn ymwneud yn weithredol â nodi meysydd i'w gwella ym mywyd yr

ysgol o ddydd i ddydd. Teimplant fod y staff yn gwerthfawrogi eu barnau ac yn gwrando arnynt.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda at weithgareddau yn y gymuned. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu datblygiad fel unigolion cyflawn a chyfrifol.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Da</b>
-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Mae'r ystod eang o brofiadau dysgu diddorol a ddarperir yn ysgogi ac yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymweliadau addysgol â mannau fel Sw Mynydd Cymru a Chadeirlan Llanelwy, ynghyd ag ymwelwyr i'r ysgol, yn gwella'r cwricwlwm yn dda ac yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, y mae niferoedd da yn eu mynychu, gan gynnwys clwb celf a chlwb eco, yn cefnogi dysgu'r disgyblion yn dda.

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn fanwl yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da o ran datblygu medrau rhifedd a llythrennedd. Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau pwrpasol sy'n galluogi disgyblion i ddatblygu a defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws y cwricwlwm cyfan. Mae'r cynllunio ar gyfer datblygu ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn arbennig o dda. Gwna'r ysgol gynnydd da o ran gweithredu'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol.

Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol yn ddigon effeithiol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru.

Mae'r athrawon yn mynd ati'n effeithiol i hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o gynaliadwyedd ac arbed hynny. Maent hefyd yn darparu profiadau dysgu o ansawdd da sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o fywyd mewn gwledydd eraill.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd da. Mae perthnasoedd gweithio pwrpasol rhwng y staff a disgyblion sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau dysgu a lles y disgyblion. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae'r athrawon a staff cymorth yn cymell y disgyblion yn effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth a medrau proffesiynol da a chyfoes. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae athrawon yn modelu neu'n esbonio tasgau yn dda, yn sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn llwyddiannus ac yn cydweddu gweithgareddau yn ôl anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mewn ychydig o wersi, fodd bynnag, nid yw lefel yr her yn ddigon uchel ac, o ganlyniad, mae cyflymder y dysgu'n araf.

Mae pob un o'r athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fel arfer, mae eu sylwadau ysgrifenedig yn cysylltu'n dda â ffocws gweithgareddau dysgu. Mae hyn yn helpu disgyblion i weld pa mor dda maent wedi gwneud a beth sydd angen iddynt



wneud i wella. Mewn ychydig o achosion, fodd bynnag, nid yw ansawdd y marcio'n ddigon trylwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r athrawon a staff cymorth yn rhoi adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ac yn eu holi'n effeithiol. Mae hyn yn gymorth yn aml i ddatblygu medrau meddwl disgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu'n fedrus o ran asesu gwaith ei gilydd.

Mae systemau cynhwysfawr gan yr ysgol i fonitro cynnydd disgyblion unigol. Defnyddir y wybodaeth hon yn llwyddiannus gan athrawon i lywio'r cynllunio ac i nodi'r disgyblion hynny y mae angen cymorth neu her ychwanegol arnynt. Mae'r ysgol yn cadw proffiliau disgyblion defnyddiol iawn sy'n dangos systemau effeithiol i sicrhau bod barnau asesiadau diwedd cyfnod allweddol disgyblion yn gywir. Mae rhieni a gofawr yn cael gwybodaeth werthfawr am gynnydd, cyflawniad a lles eu plentyn trwy gyfarfodydd rhieni rheolaidd ac adroddiadau blynyddol.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae lefel uchel y gofal a'r perthnasoedd gweithio da rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n gadarn at les disgyblion. Mae trefniadau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac i ddarparu cyfleoedd da ar gyfer ymarfer corff rheolaidd. Darperir profiadau gwerthfawr gan y staff sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol disgyblion yn dda. Mae gweithredoedd addoli dyddiol yn canolbwyntio'n llwyddiannus ar godi ymwybyddiaeth o ddatganiad cenhadaeth yr ysgol. Mae cysylltiadau lleol cadarn â'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o fyw mewn gymuned. Un enghraifft dda o hyn yw cyfranogiad y disgyblion mewn gŵyl gerdd leol.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o ystod eang o asiantaethau allanol a gwasanaethau cymorth i ddarparu arweiniad a chymorth defnyddiol i staff, disgyblion a rhieni, pan fo angen. Mae cymorth wedi'i dargedu'n glir i ddisgyblion unigol wedi arwain at welliannau sylweddol mewn ymddygiad, cyflawniad a hyder.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae dealltwriaeth dda gan y staff o anghenion disgyblion. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac i ddarparu strategaethau ymyrryd targedig o ansawdd da iddynt. Mae cynorthwyrwyr addysgu yn rhoi cymorth gwerthfawr o ran cyflwyno rhaglenni ymyriadau, gan alluogi'r disgyblion hyn i wneud cynnydd da.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol a theimla pob plentyn ei fod yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle cynigir mynediad cyfartal at addysg i bob disgybl. Mae hyn yn treiddio i bob agwedd ar fywyd yr ysgol ac yn sail i'w hymrwymiad i sicrhau bod pob disgybl yn gwneud ei orau, yn dangos parch, yn cael ei drin yn deg, yn helpu'i gilydd ac yn hapus. Mae pob aelod o'r staff yn hyrwyddo cynhwysiant yn effeithiol. Cynigia'r athrawon gyfleoedd mynych i ddisgyblion ddangos gofal ac ystyriaeth at rai eraill yn yr ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r ysgol yn hyrwyddo agweddau goddefgar, lle mae'r staff a'r disgyblion yn teimlo'n rhydd oddi wrth unrhyw fath o aflonyddu.

Mae'r adeiladau yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion, er nad yw'r rhai ag anabledau corfforol yn gallu cyrraedd pob rhan o'r ysgol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, a bod lefel y glendid yn uchel. Gwna'r staff ddefnydd da o'r gofod sydd ar gael, ac mae arddangosfeydd lliwgar o ansawdd da yn creu amgylchedd dysgu deniadol ac ysgogol. Mae'r man awyr agored diddorol yn adnodd dysgu gwerthfawr iawn. Gofelir yn dda amdano gan aelodau o gymuned yr ysgol. Mae disgyblion, staff a rhieni yn gwneud defnydd arbennig o dda o ardal yr ardd i gynorthwyo dealltwriaeth disgyblion o fyw'n iach. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn cyfateb yn briodol i anghenion y disgyblion.

<b>Cwestiwn Allweddol 3:</b>	<b>Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
------------------------------	--	-----------

#### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu gweledigaeth glir a set o werthoedd craidd sy'n adlewyrchu'n gywir ddatganiad cenhadaeth yr ysgol a'i hethos Cristnogol. Mae'r pennaeth wedi gweithio'n effeithiol gyda'r staff i greu systemau sy'n helpu'r ysgol i gyflawni ei nodau yn dda. Mae'r systemau hyn wedi galluogi'r ysgol hefyd i gynnal lefelau da o ran perfformiad academaidd a phresenoldeb. Mae'r ysgol yn gweithredu ac yn rheoli newid yn llwyddiannus, er enghraifft, addasu'r cwricwlwm i sicrhau llawer o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd a rhifedd ar draws ystod eang o ddysgu.

Mae trefniadau addas gan yr ysgol i ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau. Mae hyn yn sicrhau cwmpasu'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn sicrhau bod systemau'r ysgol o ddydd i ddydd yn gweithio'n dda. Nodir rolau staff mewn swydd-ddisgrifiadau priodol. Fodd bynnag, nid oes trefniadau wedi'u diffinio'n ffurfiol gan yr ysgol ar gyfer cyflawni cyfrifoldebau arweinyddiaeth yn absenoldeb y pennaeth.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol ac yn sicrhau bod yr ysgol yn bodloni rhwymedigaethau statudol. Cânt wybodaeth fanwl am gryfderau a diffygion yr ysgol, a'i blaenoriaethau i'r dyfodol. Er bod dealltwriaeth y llywodraethwyr o ddata perfformiad yn datblygu, nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon neu wybodaeth arall i herio'r ysgol yn effeithiol.

#### **Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol wedi datblygu systemau effeithiol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r broses hunanarfarnu yn drylwyr ac wedi'i seilio ar dystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau o wersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddi data yn fanwl. Mae pob aelod o'r staff addysgu, disgyblion a rhieni yn cyfrannu'n dda at y broses hon. O ganlyniad, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun realistig o gryfderau'r ysgol yn ogystal â meysydd i'w gwella. Mae gan y corff llywodraethol wybodaeth dda am ganlyniadau gweithgarwch hunanarfarnu, ond nid yw'n chwarae rhan sylweddol yn creu'r adroddiad.

Mae cysylltiadau agos iawn rhwng adroddiad hunanarfarnu'r ysgol a chynllun datblygu'r ysgol. Mae blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn canolbwyntio'n glir ar wella safonau dysgu a lles disgyblion. Mae cynlluniau yn nodi targedau gyda therfynau amser a chostau addas, ac mae ffocws clir ar flaenoriaethau cenedlaethol fel rhoi'r fframwaith llythrennedd a rhifedd ar waith. Mae hanes da gan yr ysgol yn ddiweddar o sicrhau gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd disgyblion.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid er mwyn cefnogi lles a chyflawniad disgyblion.

Mae'r partneriaethau gyda rhieni yn gadarn. Teimlant fod croeso mawr iddynt yn yr ysgol, a gwerthfawrogi eu safbwyntiau a'u barnau. Mae'r gymdeithas rhieni, athrawon a ffrindiau yn gefnogol iawn, er enghraifft, trwy weithgareddau codi arian a gwaith prosiect fel datblygu llyfrgell newydd yr ysgol. Caiff yr adnodd hwn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth i ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas fuddiol iawn gyda chylch meithrin 'Puddle Ducks'. Mae'r cylch yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ac mae hyn yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n dda yn y Cyfnod Sylfaen. Ceir cysylltiadau cadarn a threfniadau pontio effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd, ac mae amrywiaeth o weithgareddau pontio pwrpasol ar gyfer disgyblion ym Mlynnyddoedd 2,3,4,5 a 6.

Mae cydweithredu adeiladol rhwng yr ysgol ac ysgolion cynradd eraill yn yr ardal ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Cynhyrchwyd 'proffiliau dysgwyr' o safon uchel iawn gan yr ysgol, ac mae hyn wedi sicrhau gwell ansawdd a chysondeb yn asesiadau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod helaeth o bartneriaethau gyda sefydliadau cymunedol. Caiff y rhain effaith dda ar ehangu profiadau dysgu'r disgyblion. Er enghraifft, mae ymweliadau mynych â'r eglwys leol yn hyrwyddo datblygiad moesol ac ysbrydol disgyblion yn dda.

### **Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o aelodau staff â chymwysterau a phrofiad addas gan yr ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol. Defnyddia'r ysgol athrawon a staff cymorth yn dda. Mae cynorthwywyr addysgu yn cefnogi dysgu'r disgyblion ac yn cyflwyno rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Gwna'r ysgol ddefnydd gorau o arbenigedd y staff i ddarparu profiadau dysgu diddorol o fewn y diwrnod ysgol a thu hwnt.

Mae cysylltiadau synhwyrol rhwng datblygiad proffesiynol staff, cynlluniau datblygu'r ysgol a system rheoli perfformiad yr ysgol. Mae'r staff yn dangos ymrwymiad clir i wella'u harfer broffesiynol. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd da o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol wedi datblygu ystod dda o bartneriaethau strategol ag ysgolion eraill yn yr ardal sy'n cyfoethogi profiadau dysgu creadigol y disgyblion ac yn effeithio ar safonau mewn llythrennedd a rhifedd.

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn unol â'r blaenoriaethau datganedig yng nghynllun gwella'r ysgol.

Yn sgil y defnydd priodol a wna'r ysgol o'i chyllid a'r cynnydd da a wneir gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Yn y Cyfnod Sylfaen yn 2012, llwyddodd llawer o ddisgyblion i gyflawni'r deilliant 5 disgwyliedig o ran datblygu eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol mewn cyfuniad. Mae hyn ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Roedd cyfran y disgyblion a gyflawnodd uwchlaw'r deilliant disgwyliedig ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol, ond roedd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer datblygiad mathemategol.

O gymharu ag ysgolion tebyg, o ran perfformiad roedd yr ysgol yn y 25% isaf ar gyfer datblygiad medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu disgyblion, yn y 50% isaf ar gyfer datblygiad mathemategol ond yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol. O ran y deilliant uwch na'r disgwyl, rhoddodd perfformiad disgyblion mwy galluog yr ysgol yn y 50% isaf o ysgolion tebyg ar gyfer datblygu medrau iaith a medrau personol a chymdeithasol, ond yn y 25% uchaf ar gyfer datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o'u cyfuno yn agos iawn at y cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion fel arfer. Am y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi dangos gwelliant, gyda phob un o'r disgyblion yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu'n uwch. Mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg wedi bod yn fwy amrywiol dros y tair blynedd diwethaf, er bod perfformiad yn 2013 yn agos iawn at gyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol.

O ran ysgolion tebyg, mae perfformiad y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf ar gyfer Saesneg a'r dangosydd pwnc craidd mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf ar gyfer perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth am y ddwy flynedd diwethaf. Ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae'r ysgol yn gyffredinol yn perfformio yn y 50% isaf o ysgolion tebyg ym mhob un o'r tri phwnc.

Wrth gymharu perfformiad cymharol bechgyn a merched yn y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad merched yn gyson well na pherfformiad bechgyn. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran y deilliant uwch, lle mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad yn sylweddol yn aml ar draws yr holl feysydd dysgu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bechgyn yn gwneud yn well na merched fel arfer ar y lefelau disgwyliedig a'r lefelau uwch. Mae hyn yn groes i dueddiadau cenedlaethol.

Mae disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni gystal â disgyblion eraill yn gyffredinol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i'r holiaduron i ddysgwyr

### Holiadur Cynradd (Yn gyffredinol)

dynodi'r meincnod - cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010 yw hwn.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	
I feel safe in my school.	34	34 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	34	34 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	34	34 100%	0 0%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	34	34 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		98%	2%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	34	34 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	34	33 97%	1 3%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	34	34 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	34	34 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	34	33 97%	1 3%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	34	33 97%	1 3%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	34	32 94%	2 6%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		78%	22%	

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	34	32 94%	2 6%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

## Ymatebion i'r holiaduron rhieni

dynodi'r meincnod - cyfanswm yr holl ymatebion ers Medi 2010 yw hwn.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
Overall I am satisfied with the school.	13	8 62%	5 38%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	13	8 62%	5 38%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		72%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	13	9 69%	4 31%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	13	6 46%	7 54%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	0%		
Pupils behave well in school.	13	4 31%	9 69%	0 0%	0 0%	0	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		45%	46%	4%	1%		
Teaching is good.	13	7 54%	6 46%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	12	8 67%	4 33%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	13	5 38%	6 46%	0 0%	0 0%	2	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	13	9 69%	4 31%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	34%	4%	1%		
My child is encouraged to be	13	8	5	0	0	0	Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn

	Number of responses Nifer o ymatebion	Cytuno'n gryf Strongly Agree	Cytuno Agree	Anghytuno Disagree	Anghytuno'n gryf Strongly disagree	Ddim yn gwybod Don't know	
healthy and to take regular exercise.		62%	38%	0%	0%		iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	36%	2%	0%		
My child is safe at school.	13	10 77%	3 23%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	13	6 46%	5 38%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	35%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	13	8 62%	5 38%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	13	9 69%	4 31%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	12	6 50%	5 42%	1 8%	0 0%	0	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		44%	39%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	13	8 62%	5 38%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		55%	39%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	13	4 31%	2 15%	0 0%	0 0%	7	Mae fy mhentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	34%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	13	5 38%	8 62%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		53%	38%	5%	1%		
The school is well run.	13	6 46%	7 54%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	1%		



## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

Richard Lloyd	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Jane McCarthy	Arolygydd Tîm
Justine Elaine Barlow	Arolygydd Lleyg
Edward Goronwy Morris	Arolygydd Cymheiriaid
Suzanne Van Loock	Enwebai

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

## **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeiliant 1 i ddeiliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deiliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deiliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deiliant disgwylidig (deiliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

## **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

## **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.